

Trawsgrifiad o Bodlediad

Pa Opsiwn i Ti? Gyrfa Cymru

Croeso i Pa Opsiwn i Ti? Podlediad gan Gyrfa Cymru fydd o werth, gobeithio, i unrhyw un sy'n gofalu ar ôl pobl ifanc sy'n aros am ganlyniadau arholiadau eleni. Betsan Powys ydw i, mam i ddau o blant sy'n anadlu'n ddwfn iawn ar hyn o bryd am fod hwn yn haf fel na welson ni erioed o'r blaen. Dim arholiadau. Ond dyw hynny ddim yn golygu dim canlyniadau. A dim llawer o sicrwydd 'chwaith sut siâp fydd ar Addysg Bellach, Addysg Uwch, y farchnad swyddi, cyfleoedd i ddysgu yn y gweithle dros y flwyddyn i ddod.

Daliwch ati i wrando tra byddwn ni'n siarad ag arbenigwyr ym maes addysg, prentisiaethau, gwirfoddoli fydd yn eu tro yn gwrandao ar bobl ifanc a beth sy'n eu poeni nhw. A'r rhai hynny sydd fel arfer yno i helpu pan fo penderfyniadau mawr i'w gwneud - ni'r rheini a'r gofalwyr. A dw i am gyflwyno Alex Reynolds i chi, disgybl sydd, fel pawb ym mlwyddyn 13, wedi bod trwy'r drin am fod yna ansicrwydd ynglŷn â'r dyfodol yn bennaf oll. Fe ofynnais i i Alex sut deimlad oedd clywed na fyddai yna arholiadau Lefel A eleni.

Alex - Roedd llawer o ansicrwydd ynglŷn â sut oedd y dyfodol yn mynd i edrych a beth oedd yn mynd i ddigwydd yn lle arholiadau. Doedd braidd dim gwybodaeth o gwmpas ar y pryd, ar y diwrnod ddywedon nhw. Roedd lot o ddryswch a doedd dim byd yn gwneud synnwyr ar y pryd a do'n i methu deall beth oedden nhw'n mynd i'w wneud a sut oedden nhw'n mynd i helpu ni.

Betsan - Pan glywais di na fyddai arholiadau ac y bydden nhw'n ystyried y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ac yn edrych ar arholiadau llynedd ac yn y blaen, sut oeddet ti'n ymateb i hynny?

Alex - O'n i'n eithaf trist actually achos ar y pryd doedden ni heb wneud unrhyw arholiadau llafar na pherfformio mewn Cerdd na Chymraeg a doedd dim gwaith cwrs o gwbl felly roeddwn i'n poeni am sut oedden nhw'n mynd i ddewis beth oedd ein graddau ni oherwydd doedd dim byd oedd wedi cael ei asesu wir yna iddyn nhw weld. Roedd e'n anodd credu bod y gwaith roedden ni wedi ei wneud byth yn mynd i gael ei weld, fel y traethodau achos yr asesiadau oeddwn i'n poeni amdany'n nhw yn lle'r gwaith o ddydd i ddydd.

Betsan - Siwr bo ti'n meddwl bod pobl yn dweud 'Jiw dyna lwcus. Dyma'r flwyddyn fwyaf lwcus erioed eu bod ddim yn gorfod sefyll eu Lefel A ond mae'n fwy cymhleth na hynny i'ch blwyddyn chi yn dydy?

Alex - Ydy. O'n i byth yn dychmygu y bydden i'n dweud y bydden i'n hoffi cymryd fy arholiadau i achos flwyddyn diwethaf, nes i gasáu eu cymryd nhw, casáu'r holl bryder o ran eu gwneud nhw ond mae'r opsiwn eich bod ddim yn gallu eu gwneud nhw o gwbl, chi'n eu colli nhw a chi eisiau eu gwneud nhw wedyn achos chi moyn profi i'ch hun... Roedd e'n dorcalonnus a do'n i byth yn meddwl 'sw'n i'n dweud mod i moyn cymryd arholiadau byth yn fy mywyd i."

Betsan - Tan nawr.

Alex - Yn union.

Betsan - Ond yng nghanol hyn i gyd mae newyddion da i ti, sy'n mynd i fod yn wahanol i nifer o ddisgyblion eraill sy'n aros am y canlyniadau sef bod dim ots mewn gwirionedd, ar bapur beth bynnag, beth yw'r canlyniadau. Eglura ynglŷn â mis Medi a Hydref i ni a beth yw'r bwriad.

Alex - Dw i'n mynd i Brifysgol Gloucester i astudio Troseddeg a Seicoleg. Ges i gynnig diamod felly fi yw un o'r bobl Iwcus yn y sefyllfa yma lle dw i ddim actually'n poeni am beth dw i'n ei gael ym mis Awst oherwydd mae gen i le yn y Brifysgol felly dw i'n un o'r bobl Iwcus sy'n gwybod beth sy'n digwydd ym mis Medi.

Betsan - Felly nes di ystyried o gwbl, oherwydd y bydd pethau'n wahanol iawn yn gymdeithasol a hefyd yn academaidd o safbwynt sut bydd y cwrs yn cael ei ddysgu, nes di ystyried gohirio?

Alex - Do am yr wythnosau cyntaf o'n i'n meddwl os mai dyma bywyd ym mis Medi a oes pwynt gwario'r arian yna er mwyn cael Prifysgol sydd ddim wir y profiad o Brifysgol. Achos bydd popeth efallai ar-lein. Mae e bron fel y gallwn i jyst aros adre a pheidio mynd blwyddyn hyn ac aros tan flwyddyn nesaf a chael y profiad llawn o Brifysgol. Ond erbyn tua mis Ebrill o'n i'n meddwl, wel mae'n flwyddyn mor sbesial, mae'n wahanol i bob blwyddyn arall felly pam na fydden i'n rhan ohono fe yn lle gwthio fe flwyddyn yn hwyrach. Dw i'n credu bod jyst rhaid i chi fynd ymlaen gyda bywyd. Does dim pwynt meddwl gormod am y gorffennol, mae'n rhaid i chi jyst gario ymlaen.

Betsan - A phwy sydd wrth law i gynghori Alex? Wel ei mam Lyn. Felly beth amdani hi. Pan welodd hi'r penawdau yn dweud 'Dim Arholiadau Eleni' sut oedd hi'n ymateb?

Lyn - O'n i'n siomedig dros ben. Dw i'n gwybod y byddai lot o bobl yn meddwl 'o grêt dim arholiadau ond roedd hi'n teimlo ei bod hi eisiau profi ei hunan. Doedd hi heb wneud yn arbennig o dda yn yr arholiadau llynedd ac roedd hi wedi cael yr hwb i weithio yn fwy caled a gweld bod y gallu gyda hi wedyn yng ngherddoriaeth i wneud lot, lot yn well ac roedd hi wedi treulio lot o amser yn ymarfer ei darnau a lot o amser yn creu'r cyfansoddiadau yna.

Betsan - Felly gan fod dim gofid o safbwynt y graddau, beth yw'r prif beth sy'n becsu Alex nawr?

Lyn - Dw i'n credu taw eisiau sicrhau ei bod hi'n cael chwarae teg am ei graddau a dwi'n credu bod tipyn o ansicrwydd wedi bod yn y ffordd mae'r graddau yn mynd i gael eu cytuno. Wy'n credu ei bod hi eisiau gwneud y gorau y gall hi. Dyw'r ffaith bod dim angen tri B arni neu A a dau B neu beth bynnag ddim yn gwneud llawer o wahaniaeth. Dw i'n credu ei bod hi o ran ei hunan-barch yn ei haddysg eisiau cael y graddau gorau y gall hi eu cael.

Betsan - Ac mae'n benllanw i ychydig flynyddoedd o waith yn dydy?

Lyn - Ydy. Yn enwedig, dw i'n mynd nôl eto i'r ochr gerddorol, os ydych chi'n 'neud pwnc sy'n eithaf ymarferol hefyd. Mae hi wedi bod yn astudio Cymraeg a Seicoleg hefyd ond mae'r ochr gerddorol hefyd. Er taw nid Cerddoriaeth mae'n mynd i astudio yn y Brifysgol ond Seicoleg, mae e'n rhywbeth sydd wedi bod yn rhan fawr o'i bywyd hi ers iddi fod yn blentyn ifanc a dw i'n credu taw'r penllanw yw'r peth yn union.

Betsan - Faint mae hi'n deall a faint ydych chi'n deall a sut ydych chi wedi dod i ddeall beth yw'r sefyllfa o safbwynt rhoi marciau a sut mae pethau'n mynd i weithio?

Lyn - Yn weddol dw i'n credu. Mae'r ysgol wedi bod yn dda yn cadw mewn cysylltiad â'r rhieni yn esbonio'r sefyllfa. Efallai y gallai fod wedi cael ei wneud yn well, dw i ddim yn gwybod. Mae e'n sefyllfa mor anhygoel ac annisgwyl, mae'n anodd dweud sut fyddech chi'n gwneud rhywbeth yn wahanol.

Betsan - Felly nawr, fe ddaw'r canlyniadau yn electroneg felly bydd dim criw yn yr ysgol gyda'i gilydd yn cael dathlu neu'n rhannu eu dagrau gyda'i gilydd ac mae hwnna yn ei hunan yn rhywbeth gwahanol yn dydy? Fyddan nhw adre ar ben eu hunain yn agor e-bost.

Lyn - Byddan. A dw i'n credu y byddan nhw'n colli'r diweddglo. Mae'r cyfnod o orffen ysgol, p'un ai eich bod chi'n gorffen ysgol yn 16 neu'n 18, yn ddiwedd cyfnod a dw i'n credu ei fod e'n bwysig i bobl fynd trwy'r cyfnodau a'r pethau pwysig yma sy'n rhoi diwedd ar gyfnod ysgol a dechrau ar y cyfnod nesaf yn eich bywyd. Byddan nhw yn colli mas a dw i yn teimlo'n flin iawn drostyn nhw.

Betsan - Oes gyda chi unrhyw ofid felly wrth ystyried y bydd Alex yn mynd i'r Brifysgol? Bydd hynny'n dipyn o newid byd ar adeg anghyffredin i ferch ifanc.

Lyn - Bydd yn sicr achos bydd y profiad yn hollol wahanol. Mae hi'n bwriadu mynd i'r Brifysgol yn Lloegr hefyd ac felly mae'r rheolau yn Lloegr wedi bod yn eithaf gwahanol i'r rheolau yng Nghymru wrth gwrs. Mae pobl yn sôn am ail don efallai ym mis Medi. Mae hwnna'n peri gofid i fi fel rhiant iddi hi fel person ifanc. A'r teimladau chi'n eu cael am eich plentyn yn gadael cartref a mynd i'r Brifysgol yn y lle cyntaf. Felly bydd e'n gyfnod emosiynol iawn i fi fel mam beth bynnag.

Betsan - Beth am arian? Mae nifer o bobl ifanc yn y gwyliau haf hir cyn mynd i Brifysgol yn cael cyfle i ennill arian poced neu fwy nag arian poced o ystyried y costau sydd i ddod. Ydy'r math yna o gyfle wedi gorfod mynd i'r gwellt?

Lyn - Wel roedd Alex wedi dechrau swydd yn gweithio yn un o'r bariau lleol ac roedd hwnna bythefnos cyn y clo felly roedd hwnna wedi mynd i'r wal. Oherwydd yr ansicrwydd, doeddwn i heb ei hannog hi fynd mas i chwilio am swydd achos o'n i ddim yn teimlo fy mod i eisiau iddi fynd mas gan fod y pandemig a gofidiau iechyd ac yn y blaen. Byddai pethau wedi bod yn wahanol iawn heblaw am yr ochr arholiadau achos bydden nhw wedi gadael ysgol ym mis Mai a

mynd ar wyliau gyda'i gilydd ac efallai ffeindio swydd ac ennill bach o arian i edrych ymlaen at fynd bant. Mae'n anodd meddwl nawr fel byddai pethau wedi bod a bod yn hollol onest.

Diolch i Lyn ac Alex am rannu rhai o'u gofidiau nhw, rhai sy'n gyfarwydd iawn dw i'n siŵr i bobl ifanc fyddai wedi wynebu eu harholiadau Lefel A eleni ac i'w rheini nhw o un pen o Gymru i'r llall. Mynd amdani mae Alex wedi penderfynu gwneud ond pa opsiynau sydd yna i'w hystyried wedi agor yr e-bost yna gyda'r canlyniadau hollbwysig. Yn ymuno â fi mae dwy sy'n gwybod am beth maen nhw'n siarad. Nerys Vaughan a Ffion Jones. Nerys eglurwch chi i ddechrau beth yw'ch arbenigedd chi.

Nerys - Bore da Betsan. Gweithio i Gyrfa Cymru ydw i ac mae Gyrfa Cymru yn gwmni sydd yn darparu gwasanaeth, cyngor a gwybodaeth a chyfarwyddyd i bobl ifanc ac oedolion ar hyd a lled Cymru. Mae ganddon ni ymgynghorwyr gyrfa sy'n ymgysylltiedig a phob ysgol uwchradd ac maen nhw yna i helpu pobl ifanc i ddeall eu hopsiynau a'u helpu nhw ar eu siwrne yrfaol.

Betsan - Gwych. Chi yw jyst y person rydyn ni am siarad â hi felly. A Ffion?

Ffion - Bore da. Dw i'n gweithio i'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yng Ngogledd Cymru a 'da ni'n un o dair o bartneriaethau sgiliau ar draws Cymru ac wedi ein sefydlu gan Lywodraeth Cymru. Ein prif rôl ni ydy cydlynu anghenion y farchnad lafur a beth mae cyflogwyr yn chwilio amdany'n nhw efo'r brif linell sy'n dod drwy addysg a'r sgiliau sydd gan bobl ifanc a phobl o bob oed i gwrdd efo anghenion y cyflogwyr, ac adnabod bod yna fylchau a sut mae llenwi'r bylchau a chyfathrebu ar ran cyflogwyr yn ôl wedyn i sefydliadau addysg a hyfforddi. Mae Gyrfa Cymru yn un o'n partneriaid ni 'da ni'n gweithio'n agos efo nhw i drio cyflawni hyn.

Betsan - Felly mae gyda ni ddwy ar ddwy ochr y ffens. Ardderchog. I ddechrau, Nerys mae hi wedi bod yn flwyddyn o ansicrwydd mawr i'r criw yma. Falle ein bod ni jyst yn cydnabod i ddechrau'r her maen nhw wedi ei wynebu.

Nerys - Ydy mae hi wedi bod yn gyfnod heriol iawn ac o wrando ar sgwrs Alex a hi'n adlewyrchu ar yr holl gymhlethdod a'r rhwystredigaeth a phethau wedi digwydd mor sydyn ac annisgwyl. Dydyn ni ddim wedi gorfod delio efo sefyllfa fel hyn erioed o'r blaen felly mae'r peth yn datblygu o ddydd i ddydd mewn ffordd a chyfnod o ansicrwydd i bobl ifanc yn arbennig. Mae'n rhaid i chi deimlo drostyn nhw. Mae'r sefyllfa maen nhw wedi ffeindio eu hunain ynddo mor annisgwyl.

Betsan - Mae'r ansicrwydd yna yn cael ei adlewyrchu i gyflogwyr hefyd achos fel arfer byddai rhyw syniad lle maen nhw'n mynd a phwy sy'n gadael ysgolion a cholegau eleni. Ond eleni mae cyflogwyr, o'r hyn rydyn ni'n ei weld ar y teledu ac ati, yn wynebu ansicrwydd mawr hefyd.

Ffion - Ydyn siŵr. Byddai nifer o gyflogwyr wedi bod yn barod i gymryd prentisiaethau ymlaen a chymryd academigion ymlaen ac felly ar 'hold' rydyn ni'n gweld y sefyllfa ar hyn o bryd. Dydyn ni ddim yn gallu dweud efo sicrwydd eto na fyddan nhw'n cyflogi prentisiaethau yn eu miloedd fel oedden nhw. Neu na fyddwn nhw'n cyflogi. Dydy'r neges yna ddim yn glir felly fedrwn ni

ddim edrych ar bethau mor ddu ac mor ddigalon. Mae'r sefyllfa Furlough ar hyn o bryd yn parhau felly dydy cyflogwyr ddim yn gwybod eu hunain eto a dydyn ni ddim yn clywed negeseuon du. Beth rydyn ni'n ei glywed ydy ansicrwydd o hyd?

Betsan - Dydyn ni ddim yn mynd i fod yn ddu a digalon. Chi'ch dwy yn iawn. Ni'n mynd i wynebu pethau gam wrth gam a thrio ystyried beth allai pobl fod yn ei wynebu dros yr wythnosau nesaf a beth yw eu hopsiynau nhw. Gadewch i ni ddechrau gyda rhywun fel Alex a'r criw fydd yn agor e-bost. Fyddan nhw ddim yn yr ysgol ynghanol criw ond yn agor e-bost efo'u canlyniadau. Nerys, cyngor falle i'r rheini fydd yn agor yr e-bost ac yn gweld eu bod fymryn yn brin o'r hyn yr oedden nhw wedi ei obeithio ei gael. Beth yw'r cyngor iddyn nhw?

Nerys - Y peth cyntaf pan mae rhywun yn cael canlyniadau, boed eu bod yn siomedig neu efallai wedi gwneud ychydig yn well na'r disgwyl ydy i beidio panicio ac efallai gymryd cyngor ac amser i edrych ar ba opsiynau sydd yn agored iddyn nhw. Os oedden nhw wedi bwriadu mynd ymlaen i addysg Uwch, ac wedi gwneud cais ac efallai bod ganddyn nhw le yn ddibynnol ar raddau, y peth cyntaf i'w wneud ydy cysylltu efo'r sefydliad hwnnw a gweld os ydy'r cwrs ar gael iddyn nhw.

Betsan - Ydy hynny'n hawdd i'w wneud Nerys? Ydy pawb yn gwybod sut i gysylltu â'r sefydliad? Ydych chi'n ei wneud e drwy'r ffôn neu e-bost? A fydd digon o bobl ar gael?

Nerys - Bydd. Mae'r drefn yna yn mynd i fod yr un fath â mae o bob blwyddyn. Mae'r Prifysgolion ar gael ar ben ffôn a hefyd mae ganddoch chi wefan UCAS ac mae pobl ifanc yn gwneud eu ceisiadau trwy UCAS. Mae popeth ar-lein ac fel yna mae hi wedi bod ers ychydig o flynyddoedd felly mae'r gefnogaeth yna. Swm i hefyd yn annog pobl ifanc sydd ddim yn siŵr i gymryd cyngor gan athrawon yn yr ysgol a hefyd gan eu cynghorydd gyrfa sy'n gweithio i Yrfa Cymru.

Betsan - Sut maen nhw'n cysylltu gyda chynghorydd gyrfa?

Nerys - O beth dw i'n ei ddeall, bydd rhai ysgolion yn agored ar ddiwrnod y canlyniadau. Byddan nhw i gyd ddim. Mae rhai yn mynd i fod yn e-bostio neu bostio'r canlyniadau.

Betsan - Bydd rhai ysgolion ar agor. Bydd pawb ddim yn gyfan gwbl ar eu pen eu hunain felly?

Nerys - Na fydd, a bydd modd cysylltu efo chynghorydd gyrfa'r ysgol trwy gysylltiad gwefan Gyrfa Cymru neu trwy ffonio'r llinell ffôn. Bydd cynghorwyr gyrfa yn ffonio pobl ifanc beth bynnag i ddilyn fyny sut maen nhw wedi gwneud ac i checio bod ganddyn nhw gynllun mewn lle.

Betsan - Felly anadlu. Ydych chi'n meddwl bod cyrsiau addysg bellach a phrifysgolion...oes awgrym eu bod yn mynd i fod rywfaint yn fwy parod eleni i ostwng y trothwy dipyn bach i ystyried y sefyllfa ansicr iawn yma mae pobl ifanc wedi bod ynddi?

Nerys - Dw i ddim yn siŵr os ydyn nhw'n mynd i fod yn gostwng y gofynion mynediad. Bydd rhaid i ni weld beth ddaw allan ar ddiwrnod y canlyniadau. Maen nhw'n gobeithio y bydd y canlyniadau yn eithaf tebyg i beth maen nhw wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf. Dw i ddim yn meddwl ar hyn o bryd y bydd nifer o bobl ifanc ddim wedi gwneud cystal â fydden nhw petai nhw wedi eistedd yr arholiadau.

Betsan - Os ydyn nhw, Nerys, yn cael y canlyniadau ac yn teimlo y bydden nhw wedi gwneud yn well yn y pwnc yna pe pawn i wedi cael y cyfle hwn neu pe bawn i wedi cael cyfle i roi'r gwaith yna mewn a bod rhywbeth yn cnoi. Dw i'n credu ein bod wedi clywed yn llais Alex posibilrwydd yna y bydd rhywbeth yn cnoi a rhyw deimlad o annhegwch. Dim bai ar neb penodol ond y teimlad cyffredinol yna o rwystredigaeth. Beth yw'r opsiynau i'r bobl ifanc yn hytrach na jyst stwnan felly?

Nerys - Mae'n rhaid iddyn nhw ystyried yn ofalus beth oedd eu cynllun nhw yn wreiddiol. Os mai eu cynllun nhw oedd mynd ymlaen i addysg uwch a bod hynny'n bosibilrwydd o hyd, falle edrych ar yr opsiwn yna a phwyso a mesur ydy hwnnw dal yn opsiwn addas iddyn nhw. Os ydyn nhw'n teimlo eu bod eisiau gwella'r graddau sydd ganddyn nhw, mae'n bosibl y bydd opsiwn o fynd yn ol i'r ysgol i ailsefyll ond mae'r sefyllfa sydd ohoni ar gyfer ein disgyblion ni sydd yn mynd ymlaen o flwyddyn 10 i flwyddyn 12 yn eithaf ansicr ar hyn o bryd hefyd felly mae'n anodd gweld sut y byddai hynny'n gweithio. Mi fydd cyfle falle i eistedd arholiad y flwyddyn nesaf sef haf nesaf. 'Da ni ddim yn gwybod hynny'n sicr ar hyn o bryd 'chwaith. Mae pethau mor ansicr ar hyn o bryd.

Betsan - Chi'n iawn. Dyna'r ansicrwydd sydd wedi bod yn ein tŷ ni. Mae plant blwyddyn 11 a 12 yn teimlo bod canolbwyntio mawr ar flwyddyn 13 a'u bod yn gallu cael eu hanghofio. Ffion. Ni'n sôn am agor canlyniadau trwy e-bost a bydd rhai yn gallu cael trafodaethau wyneb yn wyneb yn syth felly. Os yw'r canlyniadau yn siomedig, sut ddylai rhywun ddechrau ystyried, oes oes yna opsiynau eraill y dylwn i ystyried yn enwedig yn y byd fel y mae ar hyn o bryd. Yr ansicrwydd mawr ychwanegol yma. Does dim rhaid i bawb ystyried addysg bellach neu radd nag oes?

Ffion - Nag oes wrth gwrs ac mae'r gystadleuaeth am swyddi rŵan, mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi sgiliau bron iawn yn gyfartal ac weithiau yn uwch na chymwysterau ar bapur. Mae beth mae person yn gallu ei wneud a'i ddangos, pethau fel dangos agwedd bositif a gwaith tîm a chyfathrebu effeithiol. Fedrwn ni ddim meddwl bod y sgiliau yma y gallwn efallai eu rhestru yn naturiol iawn - mae'r gwerth i'r rheina yn cyfateb yn aml iawn at gymwysterau uchel ac felly mae cyflogwyr yn fodlon ystyried rhywun sydd efallai heb wneud cystal yn eu lefel A neu TGAU neu gymwysterau galwedigaethol. Efallai bod gan bobl ifanc gyfle rŵan i gymryd saib wrth addysg, cymryd blwyddyn allan i weithio neu wirfoddoli a chasglu'r sgiliau gwerthfawr yma. Fyddai hi ddim yn flwyddyn wastraff o gwbl os fyddai yna ychydig o drefn yn mynd ymlaen a phrofiadau gwerthfawr a magu sgiliau ac aeddfedrwydd.

Betsan - Beth yw'r rheini? Yn fy nyddiau i amser maith iawn yn ôl, os oedd rhywun yn cymryd blwyddyn allan, roedden nhw'n mynd i deithio o gwmpas y byd neu yn mynd i neidio efo rhaff

bungy. Mae'r byd yna wedi newid nid yn unig ar gyfer Covid. Nid dyna beth mae cyflogwyr am ei weld bob amser.

Ffion - Na. Mae yna werth mewn adeiladu cytiau yn Affrica a bungy jumping. Mae'n dangos sgiliau byw yn annibynnol ac mae pobl yn aeddfedu. Mae pob math o brofiadau yn werthfawr. Ond os ydy rhywun wedi cynllunio cymryd blwyddyn allan ac yn mynd i deithio i leoedd egsotig, mae cyfleoedd tebyg yn y wlad yma o fewn y filltir sgwâr. Mae cyfleoedd gwirfoddoli yn arbennig ar yr ochr iechyd a gofal. Mae nifer o bethau fyddai'n rhaid i rywun 'neud i gael eu checio o ran cyflyrau iechyd ond mae bob amser cyfleoedd gwirfoddoli ym milltir sgwâr pobl. Cyfleoedd efo canolfannau garddio, ffermydd yn casglu cynydau ac ati felly does dim prinder o gyfleoedd i fod yn profi sgiliau pobl yn y wlad yma 'chwaith.

Betsan - Ydy hi werth, Ffion, i gofnodi'r pethau yma rywsut a chael y rheini chi wedi bod yn gweithio iddyn nhw neu gyda nhw i gofnodi sut job chi wedi ei wneud?

Ffion - Yn sicr achos pan mae'r person yna yn mynd i fod yn neud eu cam nesaf bod hynny'n mynd i swydd go iawn neu fynd i Brifysgol neu fynd i goleg mewn blwyddyn, maen nhw eisiau llunio datganiad personol neu baratoi am gyfweiliad ac felly mae cofnodi pethau a meddwl 'ges i brofiad yn gwneud hyn ond sut ydw i'n mynd i gyfleu hynny ar bapur i gyflogwr'. Dydyn nhw ddim eisiau dyddiadur. Maen nhw eisiau prif bwyntiau ac maen nhw eisiau gwybod am ba fath o sgiliau sydd gen i. Ydw i'n gallu trefnu? Ydw i'n gallu rheoli cyllid? Ydw i'n gallu arwain pobl? Ydw i wedi bod yn areithio ac yn cyfathrebu'n dda? Felly mae eisiau trio pigo allan y sgiliau fyddai cyflogwyr eisiau eu clywed allan o'r profiadau.

Nerys - Allet ti ychwanegu at hwnna o ran profiadau magu sgiliau. 'Da ni wedi gweld cynnydd mewn pobl yn astudio cyrsiau byr ar-lein. Roedden ni'n sôn am ychwanegu at y cymwysterau maen nhw wedi eu hennill yn barod - mae hynny'n opsiwn i'w wneud yn ystod blwyddyn allan hefyd. Mae toreth o gyrsiau byr byddai pobl ifanc yn gallu eu gwneud.

Betsan - Rhowch enghraifft i ni Nerys o'r math o beth.

Nerys - Mae'r Brifysgol Agored efo nifer o bethau fel sgiliau digidol. 'Da ni gyd yn ymwybodol yn y cyfnod yma lle 'da ni wedi bod yn gwneud popeth yn ddigidol y byddai yna gyrsiau byr i ddatblygu'r sgiliau yna.

Betsan - Mae modd gwneud hynny heb fynd yn rhy agos at neb arall yn does, o ystyried bod cyfyngiadau o gwmpas y lle o hyd. Gadewch i ni fynd 'nôl at y pwynt o gael y canlyniadau. Beth am y bobl ifanc sy'n meddwl mai anadlu maen nhw eisiau ei wneud yn fwy na dim? Sydd eisiau gohirio a meddwl am beth maen nhw eisiau ei wneud? Falle bod hynny am eu bod yn poeni am y profiad cymdeithasol sydd i ddod. Falle eu bod yn poeni ynglŷn â Corona o hyd neu falle eu bod ddim yn siŵr sut fath o addysg eu bod yn mynd i gael dros y flwyddyn sydd i ddod. Os ydyn nhw eisiau anadlu neu ohirio, beth yw'r cyngor? Beth yw'r pethau y mae'n gall eu hystyried yn gyntaf?

Nerys - Y peth cyntaf i'w wneud ydy edrych beth ydy'r opsiynau i gyd sydd ar gael iddyn nhw. Os ydyn nhw'n penderfynu nad ydyn nhw eisiau mynd i'r Brifysgol, nad ydyn nhw'n barod, a'u bod yn poeni am y sefyllfa diogelwch yna edrych i weld beth ydy'r opsiynau eraill. Roedden ni'n trafod beth arall sydd ar gael iddyn nhw. Dyna ydy'r prif beth a chymryd cyngor hefyd. Mae hi'n ddigon anodd mewn sefyllfaoedd arferol ond mae pethau'n llawer mwy dryslyd bod pobl ddim yn siwr beth sydd ar gael. Hefyd mae pryder bod cystadleuaeth ar gyfer swyddi. 'Da ni'n clywed cyflogwyr yn dweud eu bod nhw'n cael miloedd o geisiadau am swyddi lle na fydden nhw ond yn arfer cael llond llaw. A bod nifer o bobl efo cymwysterau a phrofiadau yn cystadlu am y swyddi y byddai pobl ifanc yn ei wneud.

Betsan - Mae gohirio'n air bach digon hawdd i'w ddweud. Defer, felly. Ond dyw hi ddim cweit mor hawdd â hynny. Rhaid ystyried pa mor hawdd a pha mor fodlon fyddai'r sefydliad i dderbyn hynny, a fyddai'r gystadleuaeth yn fwy'r flwyddyn nesaf? O'n i'n siarad ag un boi ifanc oedd yn dweud ei fod wedi sefyll arholiad penodol er mwyn cael astudio'r gyfraith. 'Dw i wedi ei basio fe eleni ond dw i ddim yn siwr os ydw i'n ffansio ei wynebu e eto'r flwyddyn nesaf'. Felly mae'n werth meddwl beth fyddai gohirio yn ei feddwl o ddifri.

Nerys - Ydy ac mae eisiau meddwl bydd mi fydd cyrsiau gradd yn edrych ychydig bach yn wahanol o fis Medi ymlaen, ac mi fydd o'n gyfuniad o astudio ar-lein, ac mi fydd yna ddarlithoedd yn cael eu cyflwyno trwy fideo, ond bydd cyfleoedd i ymgysylltu wyneb yn wyneb gyda thiworiaid a grwpiau o fyfyrwyr hefyd. Felly bydd o ychydig bach yn wahanol ond dydy o ddim yn dweud ei fod o ddim cystal. Felly mae eisiau edrych i mewn i sut fydd y cwrs yn edrych. Sut fath o brofiadau fyddan nhw'n ei gael? Ac edrych ar yr ochr gymdeithasol achos mae hynny'n rhan bwysig i bobl ifanc sydd yn mynd i addysg uwch. Mae'n mynd i edrych yn wahanol ond mae pobl yn dal i fynd i fyw i'r neuaddau. Mi fydd cyfleoedd i gymdeithasu ond eu bod yn gorfod gwneud hynny o dan y canllawiau ac aros yn ddiogel.

Betsan - Maen nhw'n mynd i fod yn flwyddyn arbennig. Mae cwpl o'r bobl ifanc wedi dweud eu bod wedi meddwl eu bod yn unigryw os dim byd arall. Mae honna'n agwedd reit iach. Ffion, o safbwynt rhywbeth arall ni wedi clywed tipyn amdano fe sef yr ystyriaethau academiaidd a chymdeithasol a'r rhai ariannol. Byddai nifer o bobl ifanc wedi treulio'r haf nid yn unig yn dathlu ond yn gweithio ac yn magu celc ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Dyw'r rhan fwyaf ohonyn nhw ddim wedi gallu gwneud hynny. Beth yw'r ystyriaethau o safbwynt arian felly?

Ffion - Mae ychydig o amser ar ôl, os ydy rhywun yn bwriadu mynd i Brifysgol erbyn mis Medi, 'da ni'n gwybod rwan bod y cyhoeddiad y bydd y bwytai a'r lleoedd yn agor a llefydd yn llacio eto a dw i'n siwr bydd nifer o bobol ifanc yn cael eu galw yn ôl i'w hen swyddi. Felly mae amser yn mynd i fod rwan i hel arian. Mae nifer o leoedd gwersylla a charafanau yn agored a gwestai felly efallai ei fod yn gyfle i rai pobl ifanc oedd heb swydd i fynd i chwilio am un. Bydd rhai cyflogwyr yn recriwtio mewn lleoedd twristaidd sy'n agor eu drysau'n fwy. Felly chwilio am swydd ydy'r ateb. Os ydych chi eisiau hel arian ewch i chwilio am swydd. 'Da ni'n lwcus yng Nghymru bod cynifer o leoedd twristaidd ar gael ac efallai bod swyddi ar gael. Mae arian yn bwnc llosg efo myfyrwyr beth bynnag dros y blynyddoedd a cheisio bod yn gall. Mae canllawiau wrth gwrs i helpu pobl ifanc efo trefnu a bod yn drefnus yn ariannol. Os ydy rhywun ddim wedi

cael annibyniaeth ariannol erioed a dyma'r tro cyntaf, mi fyddai'n syniad mynd ar-lein a gweld sut mae edrych ar ôl cyllid yn gall a chael cyngor. Mae digon o leoedd i gael cyngor ar sut i drefnu arian a dim chwythu pob peth mewn pythefnos. Mae yna wasanaeth ar-lein a thros y ffôn ar gyfer arian a phensiynau. Maen nhw wedi bod yn ychwanegu adnoddau ar gyfer pobl o bob oed. 'Da ni'n meddwl am rieni efallai mewn sefyllfa ariannol i fod yn cefnogi pobl ifanc i fynd i goleg. Mae cyngor ar gael ac offeryn asesu ar-lein drwy'r cymorth gan y gwasanaeth yma felly mae hi werth edrych mewn i hynny.

Betsan - Nerys, i rai bydd eu rhieni nhw mewn sefyllfa dipyn gwaeth na fydden nhw wedi bod. Falle bod swyddi wedi eu colli, falle bod Furlough wedi bod a falle bod mwy o ofid ariannol nag oedd. Mae hynny'n bownd o gael effaith negyddol ar rai pobl ifanc fyddai wedi dymuno mynd ymlaen i astudio ymhellach ond sydd nawr yn gorfod ystyried o ddifri yn ariannol ydy hynny'n beth maen nhw'n medru 'neud. Beth yw'r cyngor o ran dechrau ystyried oes cymorth ariannol ar gael ac oes cefnogaeth ariannol ar gael?

Nerys - O safbwynt y rheini eu hunain, mae cymorth yna i unrhyw un sy'n wynebu diweithdra neu mewn sefyllfa lle maen nhw'n mynd i golli eu gwaith. Mae cefnogaeth ar gael gan Yrfa Cymru o ran ein carfan Cymru'n Gweithio. Mae ganddon ni dîm o gynghorwyr arbenigol sy'n delio ac yn helpu oedolion sy'n wynebu diweithdra neu yn colli eu swyddi. Mae o'n gyfnod andros o heriol ac mae hynny'n siwr o gael effaith ar bobl ifanc ond os ydyn nhw'n edrych ar fynd ymlaen i addysg uwch mae help cyllidol ar gael a gallen nhw gael cyngor gan Cyllid Myfyrwyr Cymru a gweld beth sydd yna o ran help ariannol iddyn nhw fynd i'r Brifysgol achos efallai bod sefyllfa ariannol y teulu wedi newid er pan oedden nhw'n gwneud eu cais am help ariannol. Hefyd gallan nhw gysylltu efo Gyrfa Cymru a siarad efo ein cynghorwyr gyrfa ni hefyd. Gallan nhw helpu nhw o ran pwyl arall sydd allan yna ac ar gael i roi cyngor iddyn nhw.

Betsan - Ni wedi clywed gan Alex a nifer o bobl ifanc. Ni wedi bod yn sgwrsio efo nhw ar gyfer y podlediad ond hefyd y rheini. Glywon ni gal Lyn yn gynharach. Nerys, oedd tueddiad i anghofio bod y rheini eisiau cyngor hefyd? Ni'n trio'n gorau fel rhieni i gael pethau yn iawn ond mae cyngor yn dda i rieni hefyd yn dydy?

Nerys - Ydy ac mae hwnna'n rhywbeth hanfodol bwysig ein bod ni'n cydnabod pa mor anodd ydy'r sefyllfa yma wedi bod i'r rhieni dros y misoedd diwethaf yma. Maen nhw wedi bod yn trio gweithio adre a hefyd yn addysgu plant bach ac yn cynnal pobl ifanc fel 'da ni wedi ei drafod heddiw sydd wedi bod trwy gymaint o emosiynau gwahanol. Mae o wedi bod yn heriol ond mae yna gefnogaeth yna i rieni hefyd. Mae Gyrfa Cymru yn awyddus i gefnogi'r rhieni achos mae'r rheini mor ddylanwadol. Nhw ydy'r dylanwad mwyaf ar y penderfyniadau mae pobl ifanc yn ei wneud. Ac mae'n anodd iddyn nhw gynghori achos mae pethau wedi newid cymaint ers pan oedd rhieni yn yr ysgol ac yn gwneud penderfyniadau ac mae'r opsiynau yn hollol wahanol a'r sefyllfa rydyn ni ynnddi ar hyn o bryd. Mae cefnogaeth gan Gyrfa Cymru i rieni hefyd. Rydyn ni'n mynychu nosweithiau rhieni yn yr ysgol ond 'da ni wedi bod yn cynnal nifer o sesiynau cwestiwn ac ateb gyda rhieni dros y cyfryngau cymdeithasol dros y misoedd diwethaf ac mae'r gefnogaeth yna yn dal ar gael. Felly os ydy rhieni'n poeni ac eisiau cyngor i wneud yn siŵr sut i gynghori eu plant mae croeso iddyn nhw gysylltu efo ni hefyd.

Betsan - A gwyllo a gwranddo a gweld pa fath o gwestiynau mae rhieni eraill wedi eu gofyn. Chi'n teimlo yn llai unig wedyn.

Nerys – ‘Da ni wedi cyhoeddi’r cwestiynau yna ar ein gwefan ni felly mi allan nhw fynd yn ôl ac edrych ar yr ymatebion yna. Mae’n rhaid cydnabod mae o’n gyfnod anodd a phryderus i rieni hefyd ond yr unig beth allan nhw ei wneud ydy cynnal ac annog eu plant i gymryd mantais o’r cyfleoedd sydd yna.

Betsan - Bob cwestiwn dw i wedi eu gofyn, chi’ch dwy yn gallu cynnig sawl opsiwn o’r hyn ddylid ei ystyried. Wrth drïo penderfynu pa opsiwn sy’n iawn i’r bobl ifanc, am ba fath o amser ydyn ni’n siarad pan ni’n dweud anadlwch a pheidiwch a phancio? Ydyn ni’n siarad am weithredu o fewn dyddiau? Ychydig wythnosau? Sut ddylen nhw ystyried yr amseru ar ôl cael y canlyniadau yna?

Nerys - Ar ddiwrnod y canlyniadau, fel arfer mae pob math o emosiynau. Hwnnw ydy’r diwrnod i gymryd seibiant ac anadlu. Os ydych chi eisiau ystyried ac edrych ar gyrsiau eraill, mi fydd y rheini yn cael eu cyhoeddi ar ddiwrnod y canlyniadau trwy ‘clearing’ ac mi fydd pobl ifanc yn gallu edrych i weld os oes cyrsiau yn apelio atyn nhw. Maen nhw wedi cyflwyno system yn ychwanegol eleni o’r enw ‘Clearing Plus’, ac mae hwnnw’n mynd i roi ychydig bach mwy o amser i bobl edrych ar y pethau sydd yn addas iddyn nhw mewn ffordd. Y broses yn fan yna ydy, yn ystod yr wythnos neu bythefnos fel arfer mae pobl ifanc yn cysylltu gyda phrifysgolion a gweld os oes lleoedd ar gyrsiau, y prif beth o ran anadlu ac oedi ydy peidio neidio am y cwrs cyntaf maen nhw’n ei weld a chymryd unrhyw opsiwn. Mae eisiau gofyn beth ydy cynnwys y cwrs yma, beth fyddai’n ei astudio a sut fydda i’n astudio. A hefyd beth fedra i wneud ar ddiwedd y cwrs? Ydy o’n mynd i arwain at swydd neu ydy o’n mynd i roi sgiliau i mi. Ydy hwn yn mynd i siwtio fi. Dyna’r math o beth. So mae’r cyfnod yn wahanol i wahanol bobl.

Betsan - Deall yn iawn. Felly i’r rhai hynny sydd eisiau defnyddio’r cyfnod fel cyfle i wneud bach o arian sydd eisiau mynd allan i chwilio am job, mae’n ddigon anodd fel ni’n clywed ar y newyddion yn dragwyddol ar hyn o bryd. Felly top tips. Nerys chi i ddechrau.

Nerys - Un o’r pethau pwysig ydy rhwydweithio. Mae’n andros o bwysig bod pobl ifanc yn defnyddio’r rhwydweithiau cymdeithasol nid yn unig i gyfathrebu gyda’u ffrindiau ond ar lefel chwilio am waith hefyd. Mae nifer o gyflogwyr yng Nghymru yn gyflogwyr bychain ac efallai’n defnyddio pethau fel Facebook i recriwtio ond hefyd mae’n bwysig cael proffil ar LinkedIn. A mynychu digwyddiadau lle maen nhw’n hysbysebu prentisiaethau neu ffair swyddi. Mae pethau felly yn digwydd ar-lein yn hytrach nag wyneb yn wyneb. Roedd ffair swyddi wedi ei chynnal ar y cyd rhwng Gyrfa Cymru a’r Bartneriaeth Sgiliau yn y gogledd wythnos ddiwethaf. Mae pethau felly yn digwydd. Mae diweddarau CV yn bwysig a sicrhau bod eu CV nhw yn siwtio’r math o swyddi maen nhw’n edrych amdany’n nhw. So teilwrio’r CV ar gyfer y maes. Mae cymorth i wneud hynny ar nifer o wefannau ac mi allan nhw ddefnyddio gwefan Gyrfa Cymru i edrych ar esiamplau. A dyfalbarhau. Mae gymaint o gystadleuaeth am swyddi ar hyn o bryd efallai eich bod dim yn cael lwc y tro cyntaf ond peidio rhoi i fyny. Mae’n rhywbeth mae’n rhaid iddyn nhw

ei wneud yn gyson. Edrych ar swyddi gwag bob dydd a gwneud cais yn brydlon. Dw i'n meddwl bod nifer o gyflogwyr ar hyn o bryd yn hysbysebu a gan eu bod yn cael cymaint o ymgeiswyr eu bod nhw'n cau'r swyddi yna yn gynt na'r arfer. Peidiwch pendroni a meddwl ei wneud fory. Mae eisiau bod ar ben y peth trwy'r amser.

Betsan – Ffion, mae Nerys wedi rhoi lot o top tips i ni fanna. Mae hi wedi taflu'r rhwyd yn eang. Unrhyw beth arall i'w ychwanegu?

Ffion - Yn sicr, mae yna swyddi ar gael ac mae cyflogwyr yn dal i recriwtio mewn gwahanol feysydd a defnyddio amryw o ffyrdd o chwilio am y swyddi. Dydy swyddi ddim mewn papur newydd mwy. Dydyn nhw ddim yna rhyw lawer. Maen nhw ar-lein. Mae hefyd asiantaethau recriwtio. Mae rheini yn cael swyddi yn uniongyrchol ac mae canolfannau gwaith. Mae eisiau mynd i amryw o leoedd i chwilio am swydd. Mae gwahanol gyflogwyr yn defnyddio gwahanol ddulliau ac mi wnewch chi weld gwahanol swyddi yn y gwahanol leoedd. Felly mae eisiau bod yn reit drefnus. Mae eisiau rhestr. To-do list reit fawr. Os ydych yn benderfynol o gael swydd, mae swyddi allan yna ond mae gwahanol ffyrdd o gael y swyddi.

Betsan - Ni wedi trafod pob math o opsiynau. Fel dwy sydd yn gwybod yn iawn ac sydd wedi gwneud hyn sawl gwaith ac wedi gweld criw o bobl ifanc yn mynd trwy sawl trefn. Oes unrhyw beth arall y dylen nhw neu eu rhieni ei ystyried ymchwilio?

Ffion - O ran y sefyllfa, swn i'n licio meddwl ein bod yn gallu edrych yn ôl ar y cyfnod yma - mae cymaint o negeseuon o bryder a chymaint o sôn am genhedlaeth o bobl ifanc sy'n mynd i golli allan - wel dydyn nhw ddim yn gwybod hynny eto. 'Sw'n i'n licio darllen rhywbeth mewn pum mlynedd, neu ddeg mlynedd neu ugain mlynedd bod hon yn genhedlaeth sydd wedi dangos dycnwch. Dw i'n meddwl bod y gair yna yn hollbwysig yn y sefyllfa yma. 'Da ni'n clywed ar y newyddion o ran dycnwch y farchnad lafur. Sut mae'n marchnad lafur ni a'n cyflogwyr ni a'n gwaith ni yn mynd i fownsio 'nôl. 'Da ni'n disgwyl ac yn gobeithio ei gael yn y farchnad lafur. Mae pobl ifanc yn y sefyllfa yna hefyd. Mae pobl ifanc wedi dysgu llawer iawn am ddycnwch yn eu haddysg uwchradd yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'n cael ei weld fel sgil bwysig iawn ac felly dyna beth 'sw'n i eisiau cofio. Bod y bobl ifanc yma yn gwybod sut i ymddwyn mewn sefyllfaoedd anodd. Maen nhw wedi magu lot o'r wybodaeth a sgiliau yma yn yr ysgol felly eu defnyddio nhw i'w mantais a gobeithio y byddwn yn sbïo nôl ac yn browd iawn o'n pobl ifanc sydd wedi dod trwy hyn yn arbennig o dda a dangos dycnwch i'r eithaf mewn sefyllfa anodd iawn.

Betsan - Diolch i Nerys Vaughan ac i Ffion Jones am eu cyngor. Os oes cwestiynau yn parhau gyda chi wel mae gwaith cartref sef mynd i wefan Gyrfacymru.llyw.cymru i chwilio am atebion, neu ffoniwch 0800 0284844, neu gallwch chi chwilio am Gryfa Cymru trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Byddwn ni 'nôl pan fydd y canlyniadau nid rownd y gornel ond wedi cyrraedd. A phan fydd y sgwrs nid yn petai neu petasai ond 'reit pa opsiwn i ti nawr.